

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Meilyr Siôn



Crynodeb:

Mae pawb sy'n byw yng Nghwm y Wrach mewn perygl! A fydd Daisy yn gallu helpu ei theulu? Ydi hi'n gallu gwrthsefyll grym cwmni B.Tec a bygythiadau'r efeilliaid creulon? Fydd Daisy yn llwyddo i achub y cwm rhag cael ei ddinistrio'n llwyr? Daw help annisgwyl o gysgodion chwedlonol y gorffennol ...

Dyma stori antur yn llawn dirgelwch ar gyfer unrhyw un sy'n hoffi ychydig o hud a lledrith!

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu Cwm y Wrach?

Fe ges i'n fagu ar straeon lleol, hynny yw, chwedlau a straeon arswyd ardal sir Aberteifi. Byddai mamgu neu aelodau hŷn yr ardal yn adrodd straeon am ysbrydion neu cymeriadau amheus ac roedd Mari Perllan Pityr yn un o'r cymeriadau dirgel hynny. Roedd sôn mai gwraich oedd hi a doedd dim llawer ym mhentref Pennant, Aberarth a thu hwnt yn mentro'i chroesi hi.

Dywedwch ychydig am eich llyfr ...

Mae'r stori'n dilyn hynt a helynt Daisy a'i theulu sydd wedi symud o'r gogledd i ddechrau busnes yn y gorllewin. Mae gan Daisy atal dweud a theimlai'n unig yn ei chartre newydd tan iddi ddod ar draws Mari. Yna mae'r teulu'n clywed fod cwmni B.Tec am ffracio ar gyfer nwy all fod yn ergyd farwol i'r busnes ac i Gwm y Wrach.

Mae angen i Daisy helpu ei theulu, trechu bwllis o'r ysgol a darganfod pwy yn union yw'r hen wraig sy'n byw yn y cwm ger ei chartref.

Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch drwy eich bywyd?

Roedd fan o'r llyfrgell arfer galw heibio i'r ffarm pan o'n i'n blentyn. Ar ôl dewis llyfr bydden i'n addo i mam y bydden i'n darllen ac yn gorffen y llyfr ond nes i fyth dod i ben a neud hynny. Dyna pam dwi'n mynnu darllen a gorffen unrhyw lyfr dwi'n dechrau arni dyddie 'ma. Euogrwydd o ddyddiau'r fan symudol!

Pa neges sydd gennych i ysbrydoli ysgrifenywyr ifanc?

Os oes ganddoch chi rhywbeth hoffech chi gyflawni ewch amdani.

Mae Meilyr Siôn yn awdur, cyflwynydd ac yn actor llawrydd sydd wedi ysgrifennu sawl nofel i blant, gan gynnwys Hufen Afiach a gyhoeddwyd gan Atebol yn 2019. Mae eisoes wedi cyfrannu at raglen Tic Toc ar BBC Radio Cymru ac wedi trosleisio cartwnau plant ar S4C. Daw Meilyr Siôn yn wreiddiol o ardal Neuadd-lwyd ger Aberaeon, ond mae bellach yn byw gyda'i deulu yn y Barri.



www.atebol.com



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru